Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service



# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025/26

Gweithio gyda'n gilydd i wella gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru – ar gyfer plant, pobl ifanc, oedolion mabwysiedig, teuluoedd genedigol, mabwysiadwyr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi.

**Adroddiad cryno ar gyfer POB oedran**

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn arall o gynnydd a newid i'r **Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC)**. Rydym wedi parhau i weithio gyda gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru i helpu plant i ddod o hyd i deuluoedd, cefnogi plant a phobl ifanc wedi'u mabwysiadu, helpu teuluoedd genedigol i gadw mewn cysylltiad lle mae hyn yn iawn, a'i gwneud hi'n haws i oedolion mabwysiedig gael mynediad at wybodaeth am eu gorffennol.

Cafwyd heriau hefyd. Roedd mwy o blant yn aros ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae teuluoedd yn parhau i fod angen cymorth sy'n teimlo'n symlach ac yn haws. Mae GMC yn defnyddio'r hyn y mae teuluoedd, pobl ifanc, gweithwyr proffesiynol a phartneriaid yn ei ddweud wrthym i lunio cam nesaf gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru.

Fersiwn fyrrach, haws i'w ddarllen o'r adroddiad blynyddol llawn yw'r adroddiad hwn. Mae'n esbonio beth ddigwyddodd yn 2025/26, beth newidiodd, a beth fydd GMC yn parhau i weithio arno nesaf.



# Helo!

**gan gyn Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, Suzanne Griffiths MBE**

# Felly... beth yw'r GMC?

Mae'r GMC yn dod â gwasanaethau mabwysiadu ynghyd ledled Cymru fel y gall gwasanaethau weithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig a chyson.

**Rydym yn dod â'r canlynol ynghyd:**

- Mae pob un o 22 awdurdod lleol Cymru'n rhan o'r GMC.
- Mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd mewn pum ardal fabwysiadu rhanbarthol ochr yn ochr â thair asiantaeth fabwysiadu wirfoddol (AMG).
- Mae iechyd, addysg a sefydliadau eraill hefyd yn cyfrannu.
- Mae tîm canolog y GMC yn rhoi arweinyddiaeth, cydlyniad a chefnogaeth genedlaethol i bawb.

Gyda'i gilydd, mae'r gwasanaethau hyn yn dod o hyd i deuluoedd ar gyfer plant sydd eu hangen, yn asesu ac yn paratoi mabwysiadwyr, yn cefnogi rhieni genedigol, yn darparu cymorth mabwysiadu, yn helpu oedolion mabwysiedig i gael gafael ar wybodaeth, ac yn datblygu canllawiau ac adnoddau cenedlaethol.

**Beth yw awdurdod lleol?**

Awdurdod lleol yw'r sefydliad sy'n helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ardal. Mae'n gyfrifol am bethau fel gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion, tai, heolydd a chasgliadau gwastraff. Mae 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac maen nhw'n cydweithio â'r GMC, trwy bum asiantaeth fabwysiadu ranbarthol, i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan fabwysiadu.

# Pethau a ddigwyddodd yn 2025/26

**Eleni:**

- Daethom â phobl ynghyd o ar draws Cymru yn ein cynhadledd, i rannu syniadau, dysgu o brofiadau o fabwysiadu a siarad am sut y gall gwasanaethau wella.
- Cytunon ni gynllun tymor hir newydd i helpu i lywio gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru dros y blynyddoedd i ddod.
- Fe wnaethom hyfforddi pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau mabwysiadu mewn Cynllunio Cyswllt, sef cynllunio sut y gall plant a phobl ifanc gadw mewn cysylltiad â phobl yn eu bywydau mewn ffyrdd sy'n ddiogel, yn ystyrlon ac yn iawn iddyn nhw.
- Anogon ni fwy o bobl i feddwl am fabwysiadu a dysgu am y plant sy'n aros am deuluoedd.
- Cyflwynon ni ffyrdd newydd i blant mabwysiedig a theuluoedd genedigol gadw mewn cysylltiad yn ddiogel trwy Letter Swap, sy'n cynnwys ysgrifennu llythyrau a chyfnewid lluniau, fideos a negeseuon.
- Fe wnaethon wella cyfarwyddyd a chefnogaeth i helpu plant i gael hyd i'r teuluoedd iawn yn fwy cyflym a chyson ledled Cymru.
- Cynorthwyon ni fwy o blant i ddysgu am fabwysiadu trwy rannu copïau o lyfr Blancedi'r Eirth Bach gydag ysgolion a llyfrgelloedd ledled Cymru.

**116**
yng **nghynhadledd y GMC**

**5**
rhanbarth yn paratoi i ddefnyddio **Letter Swap**

**97**
o bobl wedi eu hyfforddi ar **gynllunio cyswllt**



# Dod o hyd i'r teuluoedd cywir i blant

Parhaodd Y GMC i ganolbwyntio ar helpu'r teuluoedd cywir i ddod atom a gwneud yn siŵr bod plant yn cael eu deall ymhell cyn paru.

**Eleni:**

- Anogon ni fwy o bobl i feddwl am fabwysiadu trwy siarad am fabwysiadu ar y teledu, yn y cyfryngau cymdeithasol, Spotify ac yn y wasg.
- Gwellon ni'r ffordd y mae plant yn cael eu paru gyda theuluoedd mabwysiadol.
- Cynorthwyon ni bobl broffesiynol i ddeall profiadau ac anghenion plant yn well.
- Fe wnaethom barhau i wneud arferion mabwysiadu'n fwy cyson ledled Cymru.
- Cefnogon ni blant i symud i gartrefi teuluol parhaol cyn gynted â phosibl.

**Rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026:**

**487**
o blant angen teulu mabwysiadol

**197**
o blant yn dechrau bywyd gyda'u teuluoedd mabwysiadol

**300**
o blant yn aros i gael eu mabwysiadu ar ddiwedd y flwyddyn

**1,313**
o bobl â diddordeb mewn dysgu am fabwysiadu plentyn

Dangosodd mwy o bobl ddiddordeb mewn mabwysiadu eleni, ond roedd mwy o blant yn dal i aros i ddod o hyd i deulu mabwysiadol. Golyga hyn bod mwy o waith i'w wneud o hyd i helpu plant i ddod o hyd i'r teuluoedd cywir.

# Cefnogaeth sy'n gwneud gwahaniaeth

Mae mabwysiadu'n rhywbeth gydol oes. Gall plant, pobl ifanc a theuluoedd fod angen mathau gwahanol o gefnogaeth ar adegau gwahanol.

Llynedd, gweithion ni ar gefnogaeth sy'n haws ei ddeall, yn haws ei adolygu ac yn fwy cydgysylltiedig. Fe wnaethom:

- Helpu ysgolion, gwasanaethu iechyd a phobl broffesiynol eraill i ddeall yn well mabwysiadu a sut i gefnogi teuluoedd.
- Gwrando ar bobl ifanc i ddysgu mwy am y gefnogaeth y mae ei hangen arnyn nhw wrth iddyn nhw aeddfedu.
- Gwella'r ffordd y mae cefnogaeth yn cael ei chynllunio a'i hadolygu fel y gall teuluoedd gael y cymorth y mae ei hangen arnyn nhw.
- Creu mwy o wybodaeth ac adnoddau i helpu plant i ddeall eu storïau a'u cefndiroedd.
- Darparu mwy o gefnogaeth therapi, cyngor a chyfarwyddyd i deuluoedd ledled Cymru. Gelwir hyn y gwasanaeth Pathway.
- Cynnig gweithgareddau, cefnogaeth a chyfleoedd i blant a phobl ifanc mabwysiedig gysylltu sydd â phrofiadau tebyg. Gelwir hyn y gwasanaeth Connect.

### Stori fach: deall eich stori eich hun

Roedd gan berson ifanc gwestiynau am eu bywyd cynnar ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth oedd ganddynt yn ddryslyd. Gyda chefnogaeth, roedden nhw'n gallu dysgu mwy am eu stori a siarad amdani gydag oedolion dibynadwy. Gelwir hyn yn **Waith Stori Bywyd Therapiwtig** (GSBTh). Helpodd hyn iddyn nhw ddeall eu gorffennol yn well, teimlo'n fwy hyderus ynglŷn â phwy ydyn nhw, a chryfhau perthnasoedd teuluol.

**109**
o deuluoedd yn derbyn cefnogaeth trwy wasanaeth **Pathway**

**473**
o sesiynau therapi a chymorth i deuluoedd ledled Cymru

**216**
o blant a phobl ifanc yn rhan o wasanaeth **Connect**

**114**
o weithgareddau a sesiynau grŵp i helpu pobl ifanc i gysylltu, dysgu a chefnogi ei gilydd

Dywedodd teuluoedd a phobl ifanc wrthym fod y gefnogaeth a gawson nhw wedi gwneud gwahaniaeth. Dywedodd llawer ei bod wedi eu helpu i deimlo'n fwy hyderus, cyflawni eu nodau a chysylltu ag eraill a gafodd brofiadau tebyg. Rydym yn gwybod bod mwy i'w wneud o hyd i sicrhau bod cymorth ar gael yn gyson ledled Cymru.



# Cadw mewn cysylltiad â theuluoedd genedigol

I rai plant a phobl ifanc mabwysiedig, mae cadw mewn cysylltiad â theulu genedigol yn bwysig. Rydym wedi parhau i gefnogi cyswllt sy'n ddiogel, wedi'i gynllunio ac sy'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn.

Eleni fe wnaethom weithio i wella'r ffordd y mae plant mabwysiedig a theuluoedd geni yn cadw mewn cysylltiad. Fe wnaethom ddatblygu offer a chymorth newydd, gwrando ar bobl â phrofiad o fabwysiadu, a helpu gweithwyr proffesiynol i gynllunio cyswllt mewn ffyrdd sy'n rhoi anghenion plant yn gyntaf.

**197**

o blant yn dechrau bywyd gyda'u teuluoedd mabwysiadol gyda chynllun ar gyfer cadw mewn cysylltiad â'u teulu genedigol neu bobl bwysig eraill yn eu bywydau

**63%**

o blant gyda chynlluniau ar gyfer cadw mewn cysylltiad trwy gyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol

**36%**

â chynlluniau ar gyfer cadw mewn cysylltiad trwy lythyrau neu drwy gyfnewid anrhegion a lluniau

### Stori: brodyr a chwiorydd yn ailgysylltu

Roedd un person ifanc mabwysiedig am ddod i adnabod eu brodyr a'u chwiorydd genedigol yn well. Gyda chefnogaeth, fe wnaethon nhw ailadeiladu eu perthynas yn raddol trwy gyfnewid llythyrau, lluniau ac anrhegion cyn cyfarfod yn bersonol. Dros amser, tyfodd eu cysylltiad yn gryfach ac maen nhw bellach yn gallu cadw mewn cysylltiad â'i gilydd yn annibynnol.

# Deall y gorffennol a chael mynediad at gofnodion

Mae'r GMC eisiau i bobl fabwysiedig gael gwybodaeth fwy eglur a mwy cyson am eu mabwysiadu pan fyddant yn barod i'w gael.

Eleni fe wnaethom weithio i'w gwneud hi'n haws i bobl fabwysiedig ddod o hyd i wybodaeth am eu gorffennol, deall eu hawliau a chael mynediad at gymorth pan fydd ei angen arnynt. Edrychon ni hefyd ar sut y gall gwasanaethau ddod yn fwy cyson ledled Cymru.



## Stori: dod o hyd i deulu ar draws gwledydd

Gofynnodd ewythr am gymorth i ddod o hyd i nai a gafodd ei fabwysiadu yn y 1950au. Roedd yr achos yn ymwneud â phobl a chofnodion y tu allan i Gymru, ac roedd angen gwaith cymdeithasol ac ymchwil gofalus. Ar ôl i'r nai gael ei ddarganfod, gofynnwyd iddo a fyddai'n hoffi cael cysylltiad â'i deulu geni. Dywedodd y byddai, felly gwnaed cyswllt a chafwyd aduniad yng Ngogledd Cymru. Roedd yr aduniad yn bwysig iawn i'r nai, yn ogystal â'r ewythr a'r teulu ehangach a oedd wedi gobeithio dod o hyd iddo.

# Cadw gwasanaethau i weithio'n dda

Nid yw plant a theuluoedd yn gweld ein gwaith i gyd. Y tu ôl i'r llenni, rydym yn gweithio i helpu i wella gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru.

**Eleni:**

- Gweithion ni gyda mudiadau ledled Cymru i gynllunio sut y gall gwasanaethau mabwysiadu wella yn y dyfodol.
- Edrychon ni ar sut mae gwasanaethau'n gweithio ac awgrymon ni ffyrdd o wella cefnogaeth i blant a theuluoedd.
- Defnyddion ni ddata ac ymchwil i ddeall yn well beth sy'n helpu mabwysiadau i lwyddo a lle y gallai fod angen mwy o gymorth.
- Datblygon ni declynnau newydd i helpu i olrhain cynnydd a mesur effaith gwasanaethau mabwysiadu.




- Gweithion ni'n agos â Llywodraeth Cymru ac eraill i wella gwasanaethau a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

## Gwrando ar bobl sydd â phrofiad o fabwysiadu

Y Sgwrs Fawr Fabwysiadu, rhannodd pobl eu profiadau o fabwysiadu a'r gefnogaeth maen nhw'n ei gael. Siaradon nhw am bwysigrwydd cael y cymorth cywir ar yr adeg iawn, yn enwedig ym maes addysg, iechyd a lles emosiynol.

Mae'r syniadau a'r profiadau a rennir yn ein helpu i benderfynu beth i ganolbwyntio arno nesaf ac yn llunio cynlluniau ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru yn y dyfodol.

# Dysgu a gwella

Rydym am barhau i wella gwasanaethau mabwysiadu, felly mae'n bwysig ein bod yn gwrando pan nad yw pethau'n mynd fel y'u cynlluniwyd. Eleni, dywedodd rhai teuluoedd wrthym am broblemau a gawson nhw. Mae eu hadborth yn helpu i wella cyfathrebu, cryfhau cefnogaeth i deuluoedd a gwneud i wasanaethau weithio'n well yn y dyfodol.

## Sut cawsom ein hariannu y llynedd

Rydym yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru.

**Mae'r cyllid hwn yn ein helpu ni i:**

- Rhoi cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd wedi eu mabwysiadu, a theuluoedd.
- Cynnal gwasanaethau cenedlaethol a rhoi adnoddau sy'n helpu plant i ddod o hyd i deuluoedd.
- Codi ymwybyddiaeth o fabwysiadu ac annog mwy o bobl i ystyried mabwysiadu.
- Rheoli gwasanaethau sy'n helpu i baru plant â theuluoedd mabwysiadol ar draws Cymru.



# Beth nesaf?

Derbyniodd llawer o blant, pobl ifanc a theuluoedd gefnogaeth eleni, ond roedd rhai plant yn dal i aros i ddod o hyd i deulu mabwysiadol. Dyna pam rydym yn parhau i weithio tuag at gefnogaeth well a dyfodol mwy disglair i blant a theuluoedd ledled Cymru.

Daeth y syniadau ar gyfer ein cynllun nesaf gan blant a phobl ifanc, teuluoedd, pobl sydd â phrofiad o fabwysiadu, a gweithwyr proffesiynol o bob cwr o Gymru. Gyda'i gilydd, fe wnaethon nhw ddweud wrthym beth sydd fwyaf pwysig a lle mae angen mwy o gefnogaeth.



## Dros y blynyddoedd nesaf, rydym am:

- Helpu mwy o blant i gael hyd i'r teulu mabwysiadol cywir.
- Gwella cefnogaeth i blant a phobl ifanc wedi eu mabwysiadu a'u teuluoedd.
- Ei gwneud yn haws i blant a theuluoedd aros mewn cysylltiad gyda pherthnasau pan fo hyn yn iawn iddynt.
- Helpu pobl wedi eu mabwysiadu i gael gwybodaeth am eu gorffennol pan fyddant yn barod.
- Parhau i wrando ar bobl â phrofiad o fabwysiadu fel y gall gwasanaethau barhau i wella.

## Eisiau gwybod mwy?

Edrychwch ar wefan y GMC
**www.adoptcymru.com**

# ...ac yn olaf



Diolch i bawb sydd wedi helpu i wneud gwahaniaeth eleni, gan gynnwys plant a phobl ifanc, oedolion mabwysiedig, mabwysiadwyr, teuluoedd geni, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau partner ledled Cymru.

Rydyn ni'n gwybod bod mwy i'w wneud o hyd. Trwy barhau i wrando, dysgu a gweithio gyda'n gilydd, gallwn barhau i wella gwasanaethau mabwysiadu a helpu mwy o blant, pobl ifanc a theuluoedd i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

**www.adoptcymru.com**
F: 029 2087 3927
E: contact@adoptcymru.com

**Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Tîm Canolog**
c/o Cyngor Dinas Caerdydd
Ystafell 475 Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd CF10 4UW

@nas_cymru
@nationaladoptionservice